

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2009 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales



Yn y rhifyn hwn **In this issue**

Hafod Eryri

Geoparciau, Coblynnod
a Phowdr Gwn

**Geoparks, Goblins
and Gunpowder**

Cymru'n mynd
i Washington

**Wales Goes
to Washington**

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 11 Gwanwyn 2009

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

Hafod Eryri 4-5

Llinos Angharad

Geoparciau, Coblynnod

a Phowdr Gwn 8-9

Suzanna Meekins

Diwedd y Dechrau 12-13

Ruth Taylor Davies

Cymru'n mynd

i Washington 16-17

Teri Brewer

Newyddion 20

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Taylor Davies

lathaconsultancy@fsmail.net

ffôn: 01 792 881 762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

ffôn: 01 600 860779

Clawr Blaen: Hafod Eryri (www.pixaerial.co.uk) Caitlin Jenkins, sy'n perthyn i'r nawfed genhedlaeth o grochenwyr yng Nghrochendy Ewenni, yn dangos dulliau traddodiadol yng ngweithdy'r crochendy. (Betty Belanus)



Dangos Cymru i'r Byd

Bydd Hafod Eryri, yr adeilad uchaf yng Nghymru a Lloegr, sy'n coroni pen yr Wyddfa, yn agor i'r cyhoedd ar Fehefin 12fed. Cafodd yr enw Hafod Eryri ei ddewis gan y cyhoedd, ac mae'n bosibl ei fod yn rhoi camagraff o ystyried y tywydd y mae'r Wyddfa yn ei brofi – y gwyntoedd 150 milltir yr awr, y tymereddau o dan 20 Celsius a'r 5 metr o law sy'n disgyn bob blwyddyn – ac a effeithiodd ar y gwaith o adeiladu'r ganolfan ymwelwyr newydd. Mae Llinos Angharad yn rhannu gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer Hafod Eryri gyda ni. Yma, mae dehongli yn rhan annatod o'r adeiladwaith, gan gynnwys llinellau o farddoniaeth gan Gwyn Thomas, cyn Fardd Cenedlaethol Cymru – Copa'r Wyddfa: yr ydych chiwi yma, yn nes at y nefoedd. Bydd Hafod Eryri hefyd yn helpu i ddehongli'r mynydd a'i hanes i'r 300,000 o bobl a fydd yn ymweld â'r copa bob blwyddyn, beth bynnag fo'r tywydd.

Ym mis Mehefin hefyd bydd Cymru dan y chwyddwydr yn Washington D.C., mewn gŵyl flynyddol sy'n hyrwyddo a chefnogi pobl sy'n diogelu traddodiadau byw, dilys ac amrywiol. Mae Teri Brewer, sy'n hen gyfarwydd â'r Unol Daleithiau, yn cyflwyno Gŵyl Bywyd Gwerin y Smithsonian a'r prosiect y bu ynghlwm ag ef yng ngŵyl eleni

sy'n dangos Cymru i'r byd. Y syniad yw y bydd pawb sydd ynghlwm wrth y prosiect yn dysgu oddi wrth ei gilydd, ac yn dod i ddeall yn well yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng diwylliannau drwy gyfrwng amryw-iaeth o dechnegau dehongli anffurfiol a byrfyfyr. Cynhelir gŵyl ymylol yn Washington hefyd, lle ceir nifer o weithgareddau a digwyddiadau sy'n dehongli agweddau eraill ar Gymru: Y Bwrdd Cymreig; arddangosfa o Gerameg Stiwdio Gyfoes o Gymru; cyngerdd gan y gantores Gymreig Iris Williams; perfformiad un-dyn o Dan y Wenallt Dylan Thomas; a chyfle i fwynhau te Cymreig yn Llysgenhadaeth Prydain.

Bydd Cymru hefyd yn dod i sylw'r cynrychiolwyr a fydd yn mynychu cynhadledd flynyddol y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth a gynhelir yn ne Cymru ym mis Medi. Peidiwch â cholli'r cyfle i glywed y diweddaraf am faterion dehongli drwy'r byd, a hynny heb orfod teithio'n rhy bell. Edrychaf ymlaen at eich gweld yno.

Hoffwn ddiolch i'n holl gyfranwyr ac i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu. Ni fyddai yna gylchgrawn heboch chi. Diolch yn fawr i chi.

Ruth Waycott

Golygydd



Showcasing Wales

The highest building in Wales and England, Hafod Eryri which crowns the summit of Snowdon, will open to the public on June 12th. The name Hafod Eryri (summer residence in Snowdonia) was chosen by the public, and perhaps skirts around the extremes of weather Snowdon experiences – the 150 mile an hour winds, the temperatures of minus 20 Celsius and the 5 metres of rain it receives annually - which affected construction of the new visitor centre. Llinos Angharad shares with us the National Park Authority's vision for Hafod Eryri, where interpretation has been built into the structure, including lines of poetry etched into the granite walls, composed by former National Poet of Wales Gwyn Thomas - *Here you are nearer to heaven*. Hafod Eryri will help to interpret the mountain and its history to the 300,000 people who visit the summit each year whatever the weather.

June sees Wales being showcased in Washington D.C. at a world festival which promotes and supports people who preserve authentic, diverse and living traditions. No stranger to the States, Teri Brewer introduces the annual Smithsonian Folklife Festival and the project she has

been involved in which showcases Wales at this year's event. The aim is that all involved will learn from one another and better understand cultural differences and similarities, through a range of informal and spontaneous interpretive techniques. There's also a fringe festival in Washington where a number of activities and events interpret other faces of Wales: The Welsh Table: an exhibition of Contemporary Studio Ceramics from Wales; a concert by Welsh lady of song Iris Williams; a one-man performance of Dylan Thomas's Under Milk Wood; and the chance to enjoy Welsh tea at the British Embassy.

Wales will also be showcased to delegates attending the Association of Heritage Interpretation annual conference which comes to south Wales in September. Don't miss this opportunity to catch up with all the issues in the interpretation world without having to travel too far. I look forward to seeing you there.

I'd like to thank all our contributors and Forestry Commission Wales for providing translation services. There wouldn't be a magazine without you so many thanks.

Ruth Waycott
Editor

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 11 Gwanwyn 2009

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

Hafod Eryri	6-7
Llinos Angharad	
Geoparks, Goblins and Gunpowder	10-11
Suzanna Meekins	
The End of the Beginning	14-15
Ruth Taylor Davies	
Wales Goes to Washington	18-19
Teri Brewer	
News	20

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front Cover: Hafod Eryri (www.pixaerial.co.uk) Caitlin Jenkins, a ninth generation potter from Ewenny pottery, demonstrates traditional methods at the pottery's workshop. She features in this year's Smithsonian Folklife Festival, when Wales Goes To Washington. (Betty Belanus)



Yn ystod haf eleni, bydd Hafod Eryri yn agor i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Yma, mae **Llinos Angharad** o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn esbonio mwy am y cynllun cyffrous i ddatblygu canolfan ymwelwyr ar gopa'r Wyddfa.

Hafod Eryri



Luniau o'r awyr: www.pixaerial.co.uk
Luniau eraill: hawffraint: APCE/SNPA

Fe ddyfynnwyd y Tywysog Siarl sawl tro wrth gyfeirio at yr horwth hyll o adeilad a arferai dra-arglwyddiaethu dros fynydd-oedd Eryri. "Slym uchaf Prydain" honnir iddo alw'r lle un waith, a'r gwir amdani yw ei fod yn llygad ei le! Ar ddiwedd y ganrif

ddiwethaf, doedd cyrraedd copa'r Wyddfa ddim yn brofiad plaserus o gwbl ac roedd yr 1/2 miliwn o ymwelwyr fyddai'n cyrraedd y copa bob blwyddyn yn cofio'r adeilad am y rhesymau anghywir.

Mewn termau ymarferol a gweithredol

roedd gan yr adeilad nifer sylweddol o broblemau a doedd y caffi ddim yn cynnig profiad cadarnhaol i'r ymwelydd am nifer o resymau. Doedd awyrgylch llaith, tywyll a gormesol y tu mewn i'r adeilad ddim yn goesawgar a byddai cerddwyr a theithwyr

trên yn ymgasglu yn yr un fynedfa'r un pryd gan achosi tagfeydd ac anrhefn lwyf. Roedd mynediad yn anodd, yn arbennig felly i'r henoed a'r anabl, ac roedd prinder gwybodaeth ac arwyddion yn yr adeilad.

Ond, yn ogystal â hyn, doedd yr adeilad, a godwyd yn wreiddiol gan Syr Clough Williams-Ellis ym 1935, ddim yn gwneud defnydd darbodus o ddŵr nac ynni ac aeth hi'n rhy ddrud i gynnal a chadw'r adeilad ac erbyn 90'au'r ganrif ddiwethaf, roedd y rhaglen o atgyweirio blynyddol yn anghynladwy.

Yn ystod yr un cyfnod, dechreuodd yr Awdurdod edrych ar wahanol ddewisiadau posib ar gyfer dyfodol y copa. I rai, doedd dim angen adeilad ar gopa'r Wyddfa o gwbl, ond byddai hyn yn niweidiol i'r cwmni rheilffordd ac yn creu ansicrwydd masnachol yn ogystal â chyfyngu'n helaeth ar y math o bobl a allai gyrraedd y copa. Roedd eraill am gael gweld adeilad rhywle arall ar y mynydd ym Mwlch Glas, ond byddai hyn yn effeithio ar flodau a daeareg yr ardal yn ogystal ag amharu ar allu'r cwmni rheilffordd i greu plattformau trên a throi'n ôl o fewn hanner awr. Codi adeilad newydd yn Clogwyn oedd awgrym arall, ond fyddai'r fan hon ond yn gyfleus i'r cerddwyr ar Lwybr Llanberis, byddai'r adeilad newydd yn fwy a fyddai neb yn gallu gweld y copa oddi yno.

Mae'r diwydiant croeso yn unig yn cynhyrchu £12miliwn bob blwyddyn i Lanberis ac mae 50% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn Llanberis yn cael eu cyflogi rhywsut neu'i gilydd gan y diwydiant ymwelwyr. Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa sydd â'r prif atyniad yn Llanberis ac yn cynhyrchu £2.5m o wariant ymwelwyr bob blwyddyn. **Felly, heb unrhyw fath o waith adnewyddu sylweddol neu ailddatblygiad ar y copa, gallai amodau economaidd lleol gael eu niweidio a theimlodd Awdurdod y Parc ei bod hi'n ddyletswydd arno i ddiogelu'r diwydiant ymwelwyr yn Llanberis a'r ardal gyfagos.**

Wedi trafodaethau helaeth gyda'n partneriaid, penderfynodd y Parc gomisiynu

cwmni o ymgynghorwyr i gynhyrchu astudiaeth dichonoldeb i ailwampio'r adeilad ac i wella a thwtio copa'r mynydd ei hun a dewiswyd y pensaer Ray Hole i wneud y gwaith. Wedi cyfnod hir o ymgynghori trylwyr, sicrhau caniatâd cynllunio a sicrhau cyllid digonol ar gyfer y gwaith adeiladu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Ariannu Ewropeaidd yn y pen draw, dechreuwyd ar y gwaith o ddymchwel yr hen adeilad yn 2006 a dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Hafod Eryri yn 2007.

Ond sut le yw Hafod Eryri?

Yn anad dim, mae'n adeilad y bydd pawb yn falch ohono fo. Mae'n rhoi'r synnwyr o le i chi ac mae'r profiad o fod yno yn brofiad y byddwch chi'n ei gofio am byth. Bydd yn apelio at bobl o bob oed, o bob diwylliant a phob gallu a bydd, gobeithio yn eich annog i ddychwelyd, dro ar ôl tro.

Mae cragen allanol yr adeilad wedi ei wneud o ithfaen ac yn gorchuddio'r rhan fwyaf o'r adeilad, o'r to i'r waliau, y plattform a'r lloriau y tu mewn. Ceir dwy wal wydr hir i'r adeilad hefyd - un yn edrych i fyny am y gamedd a'r llall yn edrych i lawr i'r dyffryn i gyfeiriad Moel Hebog, Rhyd-ddu a Mynydd Mawr ac os yw tywydd yn caniatáu bydd hyn yn rhoi'r synnwyr o le i chi! Bydd to'r adeilad yn crymu er mwyn osgoi amharu ar yr olygfa o'r copa ac er mwyn ymdoddi i'r tirlun a bydd hefyd yn fodd o gasglu glaw i'w ail ddefnyddio yn nhai bach yn yr adeilad. Er mwyn osgoi anhrefn a thagfeydd yn ystod y cyfnodau prysur, bydd mynediad i deithwyr y trên ar un pen yr adeilad a mynediad i gerddwyr ar yr ochr arall.

Yn amlwg, mae egwyddorion cynaladwyedd yn rhan annatod o'r cynllun hwn. Mae dros 60% o'r deunyddiau a'r llafur wedi dod o Gymru, mae deunyddiau o'r hen adeilad wedi eu hail-ddefnyddio yn seiliau i'r adeilad newydd, a bydd trydan yn cael ei gynhyrchu gan eniaduron mwy effeithiol.

Fel Awdurdod, mae hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddiad arbennig y Parc yn un o'i phwrpasau

statudol ac felly roedd hi'n gwblw hanfodol fod dehongli'n cael rhan flaenllaw wrth ddatblygu'r cynllun.

Yn aml iawn, mae'r elfennau dehongli mewn adeilad newydd yn cael eu gadael tan y funud olaf. Bydd y penseiri a'r adeiladwyr yn canolbwyntio ar gael yr adeilad yn barod gan "adael lle" i'r elfennau dehongli. Y tro hwn fodd bynnag, roedd rhaid i ni fynd ati mewn ffordd cwblwahanol a bu'n brofiad newydd a gwahanol i'r adeiladwyr weithio'n agos gyda dehonglwyf gan fod y gwaith dehongli ar gyfer Hafod Eryri wedi bod â rhan greiddiol yn y broses adeiladu ei hun.

Y gamp o'n blaenau ni oedd cynnig gwybodaeth am hanes, cadwraeth, daeareg, a diwylliant y mynydd mewn modd a fyddai'n bachu sylw'n hawdd ac ar yr un pryd yn cefnogi ac yn cyd-fynd ag ethos ac ysbryd y pensaer, Ray Hole. Roedd rhaid i ni hefyd gwrdd ag anghenion ein cynulleidfa, bodloni a rhagori ar eu disgwyliadau, cynnig syniadau newydd iddyn nhw a sicrhau fod y profiad o gyrraedd copa'r Wyddfa yn brofiad gwerthfawr iddyn nhw.

Wedi hir bwysu a mesur, fe benderfynwyd mai nod y gwaith dehongli yn y pen draw, oedd sicrhau y byddai pawb fyddai'n ymweld ag Hafod Eryri, yn gadael yno yn deall yr Wyddfa a'i thirwedd, yn gwerthfawrogi arwyddocad y mynydd fel adnodd unigryw, yn gwerthfawrogi'r mynydd fel ased hanesyddol a ffocws diwylliannol i Gymru. Yn sgil hyn, byddai ymwelwyr felly yn cyfrannu tuag at warchod yr Wyddfa yn y tymor hir yn ogystal â chefnogi gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn y rhifyn nesaf o Dehongli Cymru, bydd Llinos yn ymhelaethu ar y gwaith dehongli yn Hafod Eryri – y cyfyngiadau a'r rhwystrau, y rhesymeg y tu ôl i'r cynllun ynghyd â sut llwyddwyd i wynebu sawl her wrth fynd ati i gyflawni'r gwaith.

*Llinos Angharad, Swyddog y Cyfryngau a Digwyddiadau, Parc Cenedlaethol Eryri
ff. 01766 772237
e. llinos.angharad@eryri-npa.gov.uk*

This summer, Hafod Eryri will open to the public for the first time.

Here, **Llinos Angharad** from the Snowdonia National Park Authority tells us about the exciting project for a new visitors' centre on Snowdon's summit.

Hafod Eryri

Prince Charles' reference to the ugly eyesore of a building that lorded it over Snowdonia's mountains has often been quoted. "Britain's highest slum" he is claimed to have called it once, and the truth is, he was right! At the end of the last century, reaching the summit of Yr Wyddfa/Snowdon was not a pleasurable experience at all and the ½ million visitors who reached its peak each year remembered the building for all the wrong reasons.

In practical and operational terms the building had many problems and the café did not offer a positive experience to the visitor. The damp, dark and oppressive atmosphere inside was not welcoming, walkers and train passengers would

congregate in the same entrance at the same time causing congestion and total chaos. Entry was difficult, especially so for the elderly and the disabled, and there was a shortage of information and signage in the building.

But, in addition to this, the building, originally built by Sir Clough Williams-Ellis in 1935, did not make the most economical use of water or energy and it became too expensive to run and maintain the building. By the 1990's the yearly maintenance programme became unsustainable.

During the same period, the Authority began to look at various options for the future of the summit. For some, there was no need for a building on the summit of

Yr Wyddfa/Snowdon at all, but that would be damaging to the rail company and would create commercial uncertainty as well as restricting the type of people who could reach the peak. Others wanted to see a building somewhere else on the mountain at Bwlch Glas, but that would have an impact on the flora and geology of the area as well as impeding the rail company's ability to build platforms for the train and to turn back within half an hour. Constructing a new building at Clogwyn was another suggestion, but that area would only be accessible to walkers on the Llanberis Path, the new building would be bigger and no one would be able to see the summit from there.



Aerial photos: www.pixaerial.co.uk
Other photographs: copyright APCE/ SNPA



The tourist industry alone generates £12 million for Llanberis every year and 50% of the people who work in Llanberis are in one way or another employed in the tourist industry. The Snowdon Mountain Railway Company, the main attraction in Llanberis, generates £2.5m of public expenditure every year. If there was no substantial redevelopment work on the summit, the local economy could be harmed and the Authority felt that it was its duty to safeguard the tourist industry in Llanberis and the surrounding area.

Following extensive discussions with our partners, the Park decided to commission a consultancy to prepare a feasibility study for redeveloping the building and improving

the mountain summit itself. The architect Ray Hole was chosen to carry out the work. Following a lengthy period of detailed consultation, securing planning permission and securing sufficient funding from the Welsh Assembly Government and European Funding the work of demolishing the old building began in 2006 and the building of Hafod Eryri began in 2007.

But what kind of place is Hafod Eryri?

More than anything else it is a building that everyone will be proud of. It gives you a sense of place and the experience of being there is one you will remember forever. It will appeal to people of all ages and ability from every culture and it will, hopefully encourage you to return time after time.

The building's outer shell is made from granite and covers most of the building, from the roof to the walls, the platform and the floors inside. The building also has two long glass walls, one looking upwards towards the cairn and the other looking down the valley in the direction of Moel Hebog, Rhyd-ddu and Mynydd Mawr and if the weather permits, this will give you a sense of place! The roof of the building will bow, in order to avoid impeding the view from the summit and to blend in with the landscape, it will also be a means of collecting rain to re-use in the building's toilets. In order to avoid chaos and congestion during the busier times, entry to the building for train passengers will be through one side of the building and entry for walkers through another.

Obviously, sustainability principles are an integral part of this design. Over 60% of materials and labour have come from Wales, materials from the old building have been re-used in the foundations of the new, and more efficient generators will produce electricity.

As an Authority, promoting opportunities for the public to understand and enjoy the Park's special features is one of its statutory purposes so it was essential that interpretation was given a prominent place in the design.

Quite often the interpretation element of a building is left to the last minute. Architects and builders concentrate on getting the building ready and 'allocate space' for the interpretation elements. This time however, we did things totally differently. It was a new experience for the builders to work closely with interpreters, as the Hafod Eryri interpretation work has been integral to the building process itself.

The task ahead of us was to how to provide information on the history, conservation, geology and culture of the mountain in a way which would easily grab attention and would at the same time support and compliment the ethos and spirit of the architect, Ray Hole. We also had to meet the needs of our audience, satisfy and exceed their expectations, offer new insights and ensure that the experience of arriving at the summit of Yr Wyddfa/Snowdon would be a valuable experience for them.

After careful consideration, it was decided that the aim of the interpretation work ultimately, was to ensure that everyone visiting Hafod Eryri would leave understanding Yr Wyddfa/Snowdon and its landscape, appreciate the significance of the mountain as a unique asset and appreciate the mountain as a historical asset and cultural focus for Wales. Subsequently, visitors would then be contributing towards the conservation of yr Wyddfa/Snowdon in the long term and also support the work of Snowdonia National Park Authority.

In the next edition of Interpret Wales, Llinos will elaborate on the interpretation work in Hafod Eryri – the constraints and obstacles, the rationale behind the plan and the challenges faced in trying to complete the work.

Llinos Angharad is Media and Events Officer for Snowdonia National Park t. 01766 772237 e. llinos.angharad@eryri-npa.gov.uk



Geoparciau, Coblynnod a Phowdr Gwn

gwella profiad ymwelwyr yng Ngwlad y Rhaeadrau

Darluniau yn null Manga a Geo-ysgrepanau - dyma'r technegau diweddaraf a ddefnyddir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddiddori ymwelwyr â Gwlad y Rhaeadrau, fel yr eglura

Suzanna Meekins.

Barddoniaeth atgofus ddwyieithog sy'n dehongli hanes y safle a'i gysylltiad â dŵr
Bilingual evocative poetry interpreting the history of the site and its relation to water


Gwlad y Rhaeadrau yw un o'r manau harddaf a mwyaf poblogaidd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Geoparc Fforest Fawr. Mae'n gartref i'r casgliad mwyaf o rhaeadrau yn y DU a dyma ble mae afonydd Mellte, Hepste a Nedd Fechan yn hyrddio eu hunain i lawr ceunentydd serth a choediog. Mae'r ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Gadwraeth Arbennig ac, i sicrhau bod y cydbwysedd rhwng hamdden a chadwraeth yn cael ei ddiogelu, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Rheoli newydd.

Er mwyn ein helpu i ddatblygu'r Cynllun Rheoli newydd, cafodd gwaith ymchwil ei wneud i brofiad ein hymwelwyr a ddangosodd fod angen gwneud nifer o welliannau. Felly, gwnaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol gais llwyddiannus i Gronfa Gynaliadwyedd y Dreth Agregau

a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am arian ar gyfer cyfres o brosiectau.

Gwneud Daeareg yn ddeniadol!

Y Ganolfan Geoparc neu Ganolfan y Rhaeadrau - pa un yr hoffech chi ymweld â hi? Dyma un peth y buom yn pendroni yn ei gylch wrth geisio penderfynu beth y byddem yn galw'r ganolfan wybodaeth ar ei newydd wedd ym mhentref Pontneddfechan. Penderfynasom mai'r ail enw oedd orau gan ein bod yn teimlo bod hwn yn fwy deniadol ac y byddai'n apelio fwy at ein hymwelwyr. Yna, ar ôl iddynt ddod i mewn, gallem ddatgelu mwy am y Geoparc yn yr arddangosfa 'Lluniwyd gan y Graig'. Canolbwyntiwyd ar groesawu ymwelwyr a'u gwneud yn gyfarwydd â Gwlad y Rhaeadrau. Yna defnyddiwyd y cysyniad o sut y mae rhaeadrau yn ymffurfio fel bachyn i egluro sut y mae'r creigiau gwae-





dwyieithog sy'n dilyn yr hen dramffordd i Sgwd Gwladys ac yn eu helpu i ddsygu am y ddaearreg gyffrous a'r dreftadaeth ddiwydiannol ar hyd y ffordd. Mae un llwybr ar gyfer oedolion, ac un wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer plant, a fydd yn cael eu tywys gan Gwladys, y coblyn anghofus. I'r rhai hynny ohonoch sy'n dymuno dysgu rhagor am fywyd gwyllt a dynodiadau cadwraeth yr ardal, rydym wedi recordio podlediad o'r enw 'Rhaeadrau a Bywyd Gwyllt' sy'n gyflwyniad llawn gwymbodaeth i'r ardal. Dyma'r llwybrau clywedol cyntaf gan y Parc Cenedlaethol y gellir eu lawrlwytho ac mae'n bleser gennym eu lansio ar ein gwefan www.breconbeacons.org.

lodol wedi siapio'r hyn a welwn heddiw.

I fyny'r grisiau, mae'r arddangosfa'n tywys yr ymwelydd yn ôl mewn amser i ddarganfod sut a ble y ffurfiwyd y creigiau, a sut y mae ein cyndadau wedi byw yn y dirwedd er mwyn dangos y rôl allweddol y mae daearreg wedi'i chwarae yn natblygiad diwydiannol yr ardal. Rhai o'n hoff rannau o fewn yr arddangosfa yw'r cyflwyniadau gweledol am y Geoparc a'r hyn y mae'n ei olygu i'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yma. Rydym hefyd yn hoff iawn o'r llyfrau storïau darluniadol sy'n adrodd chwedlau lleol megis y Rhyfelwyr Ynghwsg dan Graig y Ddinas a'r helfa i ddal y Twrch Trwyth.

Mae ein tîm addysg wedi datblygu Geogysgrepanau y gellir eu llogi yn y Ganolfan i annog teuluoedd a grwpiau ysgol i archwilio'r Geoparc. Mae'r sachau, sy'n ddigon bach i blentyn ifanc allu eu cario, yn cynnwys siartiau adnabod, ysienddrychau, chwyddaduron chwilod a chyfarpar arall sy'n addas i blant i'w helpu i ddarganfod pa blanhigyn ac anifeiliaid sy'n byw yn y ceunentydd coediog o gwmpas y rhaeadrau. Bydd llyfryn gweithgareddau fforiwr, sy'n cynnwys gemau a gweithgareddau i deuluoedd a grwpiau ysgol, hefyd ar gael, a hynny'n ddi-dâl.

Coblynod sydd yma

Mae Gwlad y Rhaeadrau yn boblogaidd iawn gan gerddwyr a darparwyr gweithgareddau awyr agored, ond gall fod yn lle heriol i ymweld ag ef, yn enwedig i deuluoedd ifanc a phobl gyda phroblemau symud. Gyda'r ymwelwyr hynny mewn golwg, rydym wedi datblygu dau lwybr clywedol

Amserau ffrwydrol!

Mae llawer iawn o bobl ifanc yn eu harddegau yn ymweld â Gwlad y Rhaeadrau, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn dod yma i ddringo, neu i archwilio'r ogofâu a'r ceunentydd fel rhan o'r gweithgareddau anturus a drefnwyd ar eu cyfer. Roeddem yn ymwybodol bod bwlch yn ein darpariaeth ddeongliadol ar gyfer plant rhwng 11 ac 16 oed a phenderfynwyd mynd i'r afael â'r grŵp targed hwn a ystyrir yn aml yn un 'anodd'. Explosive times yw teitl ein nofel arloesol newydd, sef adnodd addysgol i gefnogi Hanes Diwydiannol a Chymdeithasol. Nod y nofel yw gwneud adeiladau segur y Gwaith Powdr ger Pontneddfechan yn ddiddorol. Yn dilyn cyfarfod grŵp ffocws dadlennol gyda'r gynulleidfa darged, mireiniwyd briff y prosiect ymhellach a phenderfynwyd targedu pobl ifanc o 14 i 16 oed. Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys darluniau yn null Manga, mae'n egluro'r broses o gynhyrchu'r powdr gwn, ac mae'n dangos sut brofiad oedd gweithio yma yn y 1880au. Ymdriniwyd â diogelwch dŵr yn ogystal – neges allweddol i'r grŵp oedran hwn.

Annog fforio diogel

I gyd-fynd â'r prosiectau newydd hyn, rydym wedi gosod paneli croeso newydd yn y pum prif faes parcio a ddefnyddir gan ymwelwyr i fynd at y rhaeadrau. Nod yr arwyddion Derw Cymreig newydd, a gerfiwyd â rhaeadrau a bywyd gwyllt y ceunentydd, yw croesawu a chyfarwyddo ymwelwyr. Maent hefyd yn cynnwys barddoniaeth atgofus ddwyieithog sy'n adlewyrchu storïau sy'n unigryw i bob un o'r pum porth. Rydym hefyd, ar ôl gwerthuso ein darpariaeth bresennol, wedi gwella'r arwyddion yn yr ardal ac wedi cynhyrchu taflen newydd i helpu ymwelwyr i gael profiad cynaliadwy, diogel a llawn mwynhad.

Dyma'r tro cyntaf i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddatblygu pecyn dehongli integredig sy'n canolbwyntio ar un ardal ddaearyddol. Pe baem ni i ddewis un o'r gwersi niferus a ddysgwyd o'r prosiect, gwerth gwerthuso ffurfiannol fyddai hynny. Oni bai am yr arolygon ymwelwyr ni fyddem yn gwybod pa elfennau o'r ddarpariaeth bresennol yr oedd angen eu gwella. Oni bai am y grwpiau ffocws, mae'n bosibl y byddem wedi datblygu cynnyrch nad oedd yn ddeniadol i'n marchnad darged. Yn wyneb yr amserlen dynn sy'n gysylltiedig â phrosiectau a ariennir gan grantiau, mae'n hawdd iawn mynd yn brin o amser ar gyfer gwerthuso, ond mae'r prosiect hwn wedi dangos y dylai hyn fod yn rhan allweddol o'r broses cynllunio a gweithredu er mwyn sicrhau cynnyrch terfynol o safon uchel.

Hoffai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddiolch i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Prifysgol Abertawe, y contractwyr medrus ac ymroddedig a fu'n gweithio gyda ni, a chymuned Pontneddfechan am eu cefnogaeth.

Suzanna Meekins,
Swyddog Dehongli, Awdurdod Parc
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
e. Suzanna.Meekins@breconbeacons.org

Geoparks, Goblins and Gunpowder

improving the visitor experience in Waterfall Country

Manga style illustrations and Geo-rucksacks are the latest techniques the Brecon Beacons National Park are employing to engage with visitors to Waterfall Country as **Suzanna Meekins** explains.

Waterfall Country is one of the most beautiful and popular parts of the Brecon Beacons National Park and Fforest Fawr Geopark. It is home to the largest concentration of waterfalls in the UK and is where the rivers Mellte, Hepste and Nedd Fechan plunge their way down steep-sided, tree-lined gorges. The area is designated a Site of Special Scientific Interest (SSSI) and a Special Area of Conservation (SAC) and to ensure that the balance between recreation and conservation is maintained the National Park Authority is currently preparing a new Management Plan.

To inform the Management Plan research into the visitor experience revealed that there were a number of improvements that needed to be made. To address these, the National Park Authority made a successful bid to the Aggregates Levy Sustainability Fund and the Countryside Council for Wales to fund a suite of projects.

Making geology sexy!

Geopark Centre or Waterfalls Centre, which one would you rather visit? This was the question we pondered when considering what to call the updated information centre in the village of Pontneddfechan. We chose the latter as we felt it was more enticing and our visitors would relate to it better once they were inside. We could then reveal more about the Geopark in our exhibition 'Shaped by Rock'. We focused on welcoming visitors and orientating them within Waterfall Country and then used the concept of how waterfalls form as a hook to explain how the underlying rocks shape what we see today.

Upstairs the exhibition takes the visitor back in time to discover how and where the rocks were formed, and how our ancestors have lived in the resulting landscape to show the critical role that the geology played in the industrial development of the area. One of our favourite parts of the exhibition is the audio visual presentations about the Geopark and what it means to those who live and work here. We also love the illustrated storybooks which retell



Barddoniaeth atgofus ddwyieithog sy'n dehongli hanes y safle a'i gysylltiad â dŵr
Bilingual evocative poetry interpreting the history of the site and its relation to water



local legends like the Sleeping Warriors under Craig y Ddinas and the hunt to capture Twrch Trwyth (a local wild boar).

Our education team have developed Geo-rucksacks that can be hired from the Centre to encourage families and school groups to explore the Geopark. The sacs, which are small enough to be carried by a young child, contain ID charts, binoculars, bug magnifiers and other child friendly equipment to discover what plants and animals live in the woodland gorges surrounding the waterfalls. An explorer activity booklet containing games and activities for families and school groups will also be available, free of charge.

Here be goblins

Waterfall Country is very popular with walkers and outdoor pursuit providers but can be a challenging place to visit, especially for those with young families or mobility impairments. With these visitors in mind we developed two bilingual audio trails which follow the old tramway to Sgwd Gwladus waterfall discovering the fascinating geology and industrial heritage along the way. There is one trail for adults and another, guided by the forgetful goblin Gwladus, specifically designed for children. For those who wish to find out about the wildlife and the area's conservation designations we have also recorded a podcast entitled 'Waterfalls and Wildlife' which is an informative introduction to the area. These are the first downloadable audio trails for the National Park and we are

very excited to launch them on our website www.breconbeacons.org.

Explosive times!

There's no shortage of teenagers coming to Waterfall Country, however the majority are here to climb, cave and gorge-walk on organised adventurous activities. Aware that there was a gap in our current interpretative provision for 11-16 year olds we decided to tackle what is often perceived to be a difficult to target group. 'Explosive times' is the title of our innovative new graphic novel, an educational resource to support Industrial and Social History, which aims to make the disused buildings of the Gunpowder Works near Pontneddfechan cool. Following a revealing focus group with the target audience we further refined the project brief and decided to specifically target 14-16 year olds. The publication features Manga style illustrations and provides an insight into the process of gunpowder making whilst conveying a sense of what it would have been like to work there in the 1880s. Water safety was also incorporated – a key message for this age group.

Encouraging safe exploration

To accompany these new projects we have replaced the Welcome Point panels in the five main car parks that visitors use to access the waterfalls. The new Welsh Oak signs, carved with waterfalls and wildlife found in the gorges, aim to welcome and orientate visitors. They also include evocative bilingual

poetry reflecting stories unique to each of the five gateways. Following evaluation of our existing provision we have also improved the way marking in the area and have produced a new leaflet to help visitors have an enjoyable, safe and sustainable visit.

This is the first time that the National Park Authority has developed an integrated package of interpretation focused in one geographic area. If we were to take one of the many lessons learnt from the project, it would be the value of formative evaluation. Without the visitors' surveys we would not have known what elements of our existing provision needed improving. Without the focus groups we may have developed a product that was not attractive to our target market. With the tight timescales associated with grant funded projects it is all too easy to run out of time for evaluation, but this project has demonstrated that it should be an integral part of the planning and implementation process to ensure a quality end product.

The Brecon Beacons National Park Authority would like to thank Forestry Commission Wales, Neath & Port Talbot County Borough Council, Swansea University, the skilled and dedicated contractors we have worked with and the community of Pontneddfechan for their support.

*Suzanna Meekins, Interpretation Officer,
Brecon Beacons National Park Authority.
e. Suzanna.Meekins@breconbeacons.org*

Diwedd y dechrau

Mae **Ruth Taylor Davies** yn edrych yn ôl ar bum mlynedd cyntaf y bartneriaeth HERIAN. Beth y mae wedi'i gyflawni a pha wersi a ddysgwyd yn ystod y prosiect arloesol hwn?

Yn 2001, yn dilyn pwysau gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, arweiniodd Bwrdd Croeso Cymru fenter i ddod â bywyd newydd i'r Cymoedd. Penodwyd L&R Consultancy i astudio'r Cymoedd, a gwelodd yr ymgynghorwyr yn fuan iawn mai'r hyn sy'n gosod yr ardal hon ar ei phen ei hun yw ei threftadaeth gyfoethog, yn enwedig y dreftadaeth honno sy'n gysylltiedig â phobl a lleoedd y Chwyldro Diwydiannol. I ddeall y stori hon yn ei chyfanrwydd, roedd yn rhaid edrych y tu hwnt i'r Cymoedd, tuag at borthladdoedd y gwregys arfordirol; cyn belled i'r dwyrain â sir Fynwy gyda'i diwydiant cynnar a chyn belled i'r gorllewin â sir Gaerfyrddin er mwyn cynnwys ei diwydiannau mwyn-gloddio a metelau. Dadl L&R oedd y dylid, ac y gellid, defnyddio'r dreftadaeth gyfoethog hon fel canolbwynt ar gyfer adfywio cymunedau, fel arf addysgol pwysig, fel cymorth ar gyfer adfywio ffisegol ac, yn y tymor hir, fel ffordd o greu cyrchfan dwristiaid hyfyw.

Gosododd adroddiad L&R y llwyfan ar gyfer sefydlu partneriaeth, a oedd yn cynnwys 13 o awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector allweddol. Cafodd y bartneriaeth ei sefydlu'n gwmini cyfyngedig, dan yr enw HERIAN. Yn 2003, mabwysiadodd y bartneriaeth newydd gynllun dehongli a ddatblygwyd ar ei chyfer gan PLB, a oedd yn pwysleisio'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth y dreftadaeth ddiwydiannol draddodiadol a chanolbwyntio ar bobl. Nododd y cynllun nifer o argymhellion, ac roedd y rhain yn sail i'r rhaglenni gwaith a ddatblygwyd gan HERIAN. Dyma grynoded hononynt:

- gwell cyfathrebu a chydweithrediad rhwng y gwahanol bartneriaid a rhanddeiliaid;
- dehongli gwell a chael pobl leol i gymryd rhan mewn adrodd y stori;
- a gwell mynediad i'r stori a gwybodaeth amdani.

Un o'r prif faterion a godwyd gan adroddiad PLB oedd y ffaith fod yna eisoes nifer o atyniadau treftadaeth yn yr ardal, ond eu bod yn amrywio o ran ansawdd, a phob un ohonynt yn adrodd ei stori ar wahân. I helpu i oresgyn y broblem hon, sefydlodd HERIAN bum gweithgor ardal i benderfynu ar brosiectau datblygu lleol. Rhwng 2003 a 2008 neilltuodd Bwrdd Croeso Cymru £84,000 i gefnogi'r prosiectau hynny a fyddai'n fwyaf effeithiol o ran gwella ansawdd dehongli a mynediad i stori'r ardal. Arweiniodd hyn at fuddsoddiad o ychydig dros £25 miliwn.

Mae'r ffigurau hyn yn drawiadol, ond llwyddiant mwyaf HERIAN oedd helpu grwpiau cymunedol i symud ymlaen â phrosiectau dehongli lle'r oedd PLB wedi nodi mai pobl y rhanbarth a'u storiâu oedd un o gryfderau mwyaf yr ardal a bod angen manteisio ar hyn. Awgrymodd PLB y dylid sefydlu gwasanaeth cynghori deongliadol a chreu pecyn offer cynllunio deongliadol (a adwaenir yn awr fel 'This is Our Heritage'). Pa mor llwyddiannus fu'r gweithgaredd hwn?

Dyma Ein Treftadaeth Ni / This is Our Heritage. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae wedi helpu dros 60 o grwpiau lleol ers 2004. Mae'r



Tywyswyr Bathodyn Gwyrdd yn ysbrydoli'r dorff! Green Badge Guides enthuse the crowd!

prosiect wedi helpu cymunedau i feddwl am y broses gynllunio ddeongliadol a hefyd wedi ehangu eu gorwelion o safbwynt yr ystod eang o gyfryngau deongliadol sydd ar gael iddynt. Mae'r cynlluniau gorffenedig wedi bod yn hollbwysig o ran helpu grwpiau i ddenu cyllid ar gyfer eu prosiectau, er enghraifft, roedd Band Park and Dare wedi cael eu gwrthod ddwywaith gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ond llwyddodd i gael cymorth ar ôl cwblhau ei gynllun Dyma Ein Treftadaeth Ni.

Croeso i'n Treftadaeth Ni / Welcome to Our Heritage – Mae'r cwrs hwn wedi helpu i greu byddin o dros 170 o lysgenhadon brwdfrydig a pharod. Derbyniodd y criw diweddaraf o 'raddedigion' eu tystysgrifau a bathodynau gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog Treftadaeth newydd. Meddai, "Mae'r rhaglen hon yn cydnabod y rôl mae pobl leol yn ei chwarae o ran gwneud yr ardal yn lle bywiog, cyffrous a diddorol i fyw ynddo neu i ymweld ag ef. Mae ymwelwyr yn chwilio am brofiadau go iawn pan ydynt ar eu gwyliau ac mae cynlluniau fel y rhain yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le sy'n denu ymwelwyr i Gymru."

Fel cam ymlaen o Croeso i'n Treftadaeth Ni, edrychodd HERIAN ar y posibilrwydd o hyfforddi pobl leol i arwain teithiau yn yr ardal. Mae'r cymhwyster hwn, a adwaenir fel **Tywysydd Bathodyn Gwyrdd**, wedi cael sêl bendith y Sefydliad Tywys Ymwelwyr. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus ym Mlaenau'r Cymoedd, enillodd 10 o dywyswyr y cymhwyster yn 2007. Crëwyd cyrsiau ychwanegol mewn



*Pobl leol yn dod â hanesion lleol yn fyw
Local people bring local stories to life*



*People Power – tywyslyfr a phrint deongliadol
People Power – guidebook and interpretive print*

stori i bobl yn eu hamgylchedd eu hunain; Llwybr o Oleuni, sef goleuo adeiladau hanesyddol; prosiectau seiliedig ar berfformiad (gweler yr erthygl yn rhifyn 7), a thywyslyfr treftadaeth ddiwydiannol, sy'n defnyddio storïau pobl i ddod â threftadaeth yr ardal yn fyw.

Mae dylanwad HERIAN ar ddatblygiad prosiectau deongliadol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol. Ond rydym hefyd wedi dysgu llawer:

- Mae angen pleidiwr i sicrhau llwyddiant prosiect.
- Mae'n cymryd amser i ennill ymddiriedaeth grwpiau cymunedol – ond anaml y mae amserlenni sector cyhoeddus yn gwerthfawrogi amserlenni cymunedol; bydd yn cymryd yr holl amser sydd ei angen!
- Mae llawer iawn o ewyllys da a brwdfrydedd yn y gymuned – ond mae'n cymryd llawer o amser i'w harneisio.
- Mae pethau'n cymryd llawer mwy o amser nag yr oeddech wedi'i ragweld!

Tra bo'r endid cyfreithiol yn diflanu, mae rhaglenni gwaith HERIAN yn cael eu prif ffrydio gan fod y Cynulliad wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r rhaglenni hyn. Mae hyn yn deyrnged haeddiannol, sy'n cydnabod llwyddiant HERIAN a'r angen i ymrwymo i wneud llawer mwy yn y tymor hir. Bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd hyn yn datblygu.

Bu Ruth Taylor Davies yn gweithio fel Ymgynghorydd Dehongli i HERIAN o 2004, ac mae'n rhedeg Letha Consultancy. Cysylltwch â: lethaconsultancy@fsmail.net

pynciau arbenigol ar gyfer Gwlad Cordell a Siartiaeth. Mae HERIAN wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid mewn ardaloedd eraill i ehangu'r hyfforddiant, ac mae astudiaeth gwmpasu wedi nodi meysydd blaenoriaethol a ffynonellau cyllid at y dyfodol.

Bu **Gang y Siartwyr (Chartist Gang)** yn brosiect llwyddiannus arall. Mae HERIAN wedi darparu swyddogaeth gydlynol ar gyfer ystod o brosiectau cymunedol yr oedd Siartiaeth yn llinyn cyswllt rhyngddynt. Yn ogystal â phrosiectau ffisegol, mae'r 'gang' wedi cynnal cyfres ryfeddol o ddigwyddiadau i nodi 170ain pen-blwydd Gwrthryfel y Siartwyr. (www.chartismnewport.org).

Gwnaed defnydd da hefyd o'r **Gwasanaeth Cynghori Deongliadol**, a chafwyd llwyddiannau nodedig megis helpu'r gymuned yn Senghennydd i gael arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer eu hystafell goffa. Ym 1913, digwyddodd y trychineb glofaol gwaethaf yn hanes y DU

yng Nglofa Universal. Mae effeithiau'r trychineb yn parhau ac roedd y gymuned wedi agor llyfr coffa. Mae gwasanaeth ymgynghorol deongliadol HERIAN wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu prosiect dehongli sy'n cynnwys digido'r archif enfawr o ffotograffau a dogfennau, darparu gwell casys arddangos a chael y gwahanol genedlaethau i gydweithio â'i gilydd.

Mae HERIAN hefyd wedi helpu rhanddeiliaid i wella eu sgiliau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi, megis gweithdy cynllunio deongliadol John Veverka yn 2004 a chwrs ysgrifennu deongliadol James Carter yn 2007. Mae HERIAN hefyd wedi bod yn gysylltiedig â nifer fawr o brosiectau deongliadol eraill, gan gynnwys datblygu rhwydwaith o giosgau sy'n helpu pobl i greu eu hamserlen eu hunain ar gyfer crwydro drwy Dde Cymru ddiwydiannol; datblygu print codi ymwybyddiaeth; cwis mat cwrw poblogaidd a oedd yn mynd â'r

The end of the beginning

Ruth Taylor Davies looks back over five years of the HERIAN partnership. What has it achieved and what lessons have been learnt during this innovative project?

In 2001, following pressure from Assembly Members in the National Assembly for Wales, the Wales Tourist (WTB) Board led an initiative to breathe new life into the Valleys. L&R Consultancy were appointed and quickly identified that what set the area apart was its rich heritage, particularly that linked to the people and places of the Industrial Revolution. To understand this story in its entirety, it was necessary to look beyond the Valleys to the ports of the coastal belt; as far east as Monmouthshire with its early industry and as far west as Carmarthenshire to incorporate its mining and metal industries. L&R argued that this unique heritage could and should be used as a focus for regenerating communities, as an important educational tool, as an aid to physical regeneration and, in the longer term, as a means of creating a viable tourism destination.

The L&R report set the scene for establishing a partnership, which included 13 local authorities, key public and third sector bodies. Established as a limited company, the partnership took the name HERIAN (a Welsh word for 'challenge'). In 2003 the embryonic partnership adopted an interpretation plan developed for them by PLB, which emphasised the need to move away from traditional industrial heritage and focus more on people. The plan laid out a number of recommendations, and these underpinned the work programmes which HERIAN went on to develop. These can be summarised as:

- Improved communication and cooperation between the disparate partners and stakeholders;
- improved interpretation and involvement of local people in telling the story;
- and improved access and information to the story

One of the main issues raised by the PLB report was the fact that there were already many heritage based attractions in the area, but they varied in quality, each telling their story in isolation. To help redress this, HERIAN set up 5 area working groups to identify key development projects. From 2003 to 2008 WTB made £840,000 available to help support those projects that would best improve the quality of interpretation and access to the area's story. This resulted in over £25 million of investment.

These figures are impressive, however, HERIAN's greatest successes have been in supporting community groups to bring forward interpretation projects. PLB had identified the region's people and their stories as one of the area's greatest strengths which needed to be harnessed. PLB suggested establishing an interpretive advisory service and creating an interpretive planning toolkit (now known as This is Our Heritage). So how successful has this activity been?

This is Our Heritage (TIOH) has proved to be very successful, and since 2004 has assisted over 60 local groups. The project helped communities to think

through the interpretive planning process and also broadened their horizons in terms of the vast array of interpretive media available to them. The finished plans have been instrumental in helping groups to attract funding for their projects e.g. the Parc and Dare Band had been rejected twice by Heritage Lottery Fund (HLF), but secured their support following the completion of their TIOH plan.

Welcome to Our Heritage (WtOH) -

The course has helped create an army of over 170 enthusiastic and eager ambassadors. The last round of 'graduates' received their certificates and badges from the new Heritage Minister Alun Ffred Jones who said, "This programme recognises the role that local people play in making an area a vibrant, exciting and interesting place to live or visit. Visitors are looking for real experiences whilst on holiday and schemes like this add to the sense of place that attracts visitors to Wales".

As a step on from WtOH, HERIAN looked to develop local people as tour guides for the area. The qualification, known as a **Green Badge Guide**, is endorsed by the Institute of Tourist Guiding. A successful pilot in the Heads of the Valleys saw 10 guides qualify in 2007. Additional courses in specialist subjects have also been created for Cordell Country and Chartism. HERIAN has been working with its partners in other areas to roll the training out, and a scoping study identifies future priority areas and funding sources.

*Teulu'r
Tŷ Glo yn
lansio cabannau
gwybodaeth
HERIAN
Coal House
Family launch
HERIAN's
info kiosks*



*Tywyswyr
Bathodyn Gwyrdd
yn ysbrydoli'r dorf
ym Mlaenafon
Green Badge
Guides enthuse
the crowd in
Blaenavon*



*Trail of Light
Lhwyr o Oleuni*

industrial South Wales; the development of awareness-raising print; a popular pub beer mat quiz which took the story to people in their own surroundings; a Trail of Light, illuminating historic structures; and performance based projects (see the article in issue 7), and an industrial heritage guide book, using people's stories to bring the area's heritage to life.

HERIAN's impact on the development of interpretation projects over the last 5 years has been significant. But we have also learnt much:

- You need a champion for a project to succeed.
- It takes time to build up the trust of community groups – but public sector timescales rarely appreciate community timescales: it will take as long as it takes!
- There is much good will and enthusiasm to be harnessed amongst the community.
- Things take much longer than you anticipate!

Whilst the legal entity is disappearing, HERIAN's work programmes are being mainstreamed as the Welsh Assembly has committed to taking these programmes forward - a fitting testament, recognising both the successes of HERIAN and the need to commit to do much more in the long term. It will be interesting to see how this develops.

Ruth Taylor Davies has worked as an Interpretive Adviser with HERIAN since 2004 and runs Letha Consultancy. Contact: lethaconsultancy@fsmail.net

The Chartist Gang has been another successful project, where HERIAN has provided a coordinating function for a range of community based projects that were all linked by Chartism. As well as physical projects, the 'gang' have produced an impressive list of events to mark the 170th anniversary of the Chartist Rising. (www.chartismnewport.org)

The Interpretive Advisory Service has also been well used, and notable successes include assisting the community in Senghenydd to secure HLF money for their memorial room. In 1913, Universal Colliery saw the largest colliery disaster in UK history. The community still bears the scars of this event and had set up a book of

remembrance in the community. HERIAN's interpretive advisory service worked with the community to develop an interpretation project which included the digitisation of a vast archive of photographic and documentary material, improved exhibition cases, and intergenerational working.

HERIAN has also helped its stakeholders improve their skills by providing training opportunities, such as the John Veverka interpretive planning workshop in 2004 and the James Carter interpretive writing course in 2007. HERIAN has been involved in many other interpretation related projects including developing a network of kiosks which help people create their own itineraries for exploring

Cymru'n mynd i Washington

Yr haf hwn, bydd y National Mall yn Washington DC yn atseinio i seiniau barddoniaeth, cân, a syniadau cyfarwydd. Cymru fydd y wlad a bortreadir yn 43ain wyl Flynyddol Bywyd Gwerin y Smithsonian. Ceir mwy o'r hanes gan **Teri Brewer**.

Yr her i'r rheiny sy'n paratoi ar gyfer y rhaglen ddeongliadol enfawr hon yw sicrhau y bydd dros filiwn o ymwelwyr yn cael blas ar ddiwylliant Cymru, ac y bydd y rhaglen yn cyfleu ymdeimlad o le, yn rhannu rhai traddodiadau gwerthfawr, yn rhoi ymdeimlad cryf o'r Gymru gyfoes ac yn edrych ymlaen at y dyfodol. Ar yr un pryd, i ffwrdd o safle'r wyl, cynhelir nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo sefydliadau a busnesau Cymreig, a drefnwyd dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Gŵyl Bywyd Gwerin y Smithsonian yn enwog am ei hymrwymiad i "ysgogi sgysiau diwylliannol", a bydd y rhaglen Gymreig yn rhannu'r safle 25 erw o flaen Capitol yr UD gyda dwy raglen arall, a dylai'r sgysiau felly fod yn eang iawn. Bydd un o'r rhaglenni hyn ar draddodiadau llafar Affro-Americanaidd a'r llall ar gerddoriaeth America Ladin. Datblygir yr holl raglenni dan nawdd y Ganolfan Bywyd Gwerin a Threftadaeth Ddiwylliannol a fydd yn cychwyn ar y gwaith o'u cynllunio ymhell cyn yr wyl ac yn cydweithio â swyddogion, ysgolheigion a sefydliadau o'r rhanbarthau a'r cenhedloedd

a wahoddir er mwyn sicrhau rhaglenni dynamig sy'n cwrdd ag ystod eang o amcanion. Pan gynhelir yr wyl ddiwylliannol ddi-dâl hon dros 10 diwrnod yn ystod yr haf, bydd dros 100 o bobl o wahanol feysydd yng Nghymru yn ymgynnull yn Washington i gymryd rhan ac i gyflwyno'r rhaglen.

Sut felly yr eir ati i wneud y gwaith cynllunio deongliadol ar gyfer rhaglen dymor byr ddwys o'r fath? Mae Dr Betty Belanus, Curadur arweiniol hynod brofiadol y Smithsonian, wedi bod yn cydweithio'n agos â thîm dynodedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ystod eang o ysgolheigion ac arbenigwyr o Gymru ers rhai blynyddoedd. Mae grŵp curadurol o Gymru ynghyd â phwyllgor ymgynghorol mwy cyffredinol, ill dau yn cynnwys aelodau o amrywiaeth o sefydliadau Cymreig, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, wedi bod yn cynorthwyo i symud y broses gynllunio ymlaen yn raddol. Adolygwyd yr adnoddau rhaglen presennol yng Nghymru ynghyd â chyflwyniadau diwylliannol blaenorol yr wyl. Mewn ambell achos, comisiynwyd gwaith ymchwil newydd a chyfweliadau gan ymchwilwyr hyfforddedig. Ni ellir cadw at sgrïpt gaeth wrth ddehongli; mae'n deillio o'r berthynas rhwng cyflwynwyr, cyfranogwyr a'r gynulleidfa ar safle agored lle nad oes tâl mynediad, lle mae ymwelwyr yn crwydro fel y mynnant gan aros bob hyn a hyn i flasur pethau hynny sy'n denu eu sylw, a lle rhoddir gwerth mawr ar y byrfyfyr.

Ystyriwyd gwahanol themâu deongliadol posibl ar y cychwyn, a phenderfynwyd ar y dewis terfynol ar ôl sawl trafodaeth, symposiwm a chyfarfod bywiog. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arwain y ffordd ym mhob agwedd ar y broses gynllunio ac wedi annog artistiaid a dylunwyr o Gymru i gydweithio ag arbenigwyr y Smithsonian i ddylunio safle'r rhaglen a'r arwyddion deongliadol. Yn ystod y gwanwyn, bydd y defnyddiau'n cael eu cludo o Gymru, yn barod ar gyfer creu'r safle dros dro arbennig ar gyfer y rhaglen, a chynhelir cyfarfodydd

briffio ar gyfer y cyfranogwyr er mwyn mireinio'r cynlluniau terfynol.

Ar adeg pan fo'r gymuned ddeongliadol broffesiynol yn rhoi cryn sylw i offer a thechnegau deongliadol uwch-dechnoleg, mae Gŵyl y Smithsonian yn eithaf unigryw. Mae gan y Ganolfan ymrwymiad tymor hir i ddehongli personol a chymunedol. Bydd pobl gyffredin ac arbenigwyr lleol yn cynrychioli'r genedl wadd drwy arddangos sgiliau, trafod profiadau a chyfrannu at berfformiadau ffurfiol ac anffurfiol ac, yn fwy na dim, drwy rannu syniadau gyda chynulleidfa'r wyl yn ystod sgysiau bywiog a chyson. Rhoddir pwyslais ar ryngweithio personol ac ar gael y gynulleidfa i gymryd rhan, a dyma un wyl ddiwylliannol lle nad yw'r gynulleidfa bron byth yn fud! Mae dawnsio, canu, arddangosiadau a gweithdai ymarferol, digwyddiadau byrfyfyr, bwyd rhanbarthol a sgysiau dwys yn nodweddiadol o raglenni Gŵyl y Smithsonian.

Mae cyfyngiadau megis yr amser byr, y safle awyr agored, a'r hinsawdd laith, gynnes a stormus yn ystod cyfnod yr wyl yn golygu na ddefnyddir llawer o stondinau ac arddangosiadau cymhleth, ac felly bydd y cyfranogwyr o Gymru yn gweithio gyda chymorth grŵp dethol o "gyflwynwyr" i roi pobl yn gyntaf. Gall y cyflwynwyr hyn fod yn aelodau o staff y Smithsonian, yn arbenigwyr diwylliannol ar ymweliad o Gymru neu'n arbenigwyr gwirfoddol profiadol o'r Unol Daleithiau. Bydd y cyflwynwyr yn gofalu bod y cyfranogwyr o Gymru yn ymgynefino â'r arddull sgysiol a dysgu drwy brofiad sy'n nodweddiadol o'r wyl. Defnyddir y cyflwynwyr ar hyd a lled y safle hefyd i ysgogi ac arwain trafodaethau, i gyflwyno pobl a phynciau, i helpu gyda logisteg y tu ôl i'r llenni ac i gynnig dehongliadau cynlluniedig a byrfyfyr yn ôl yr angen.

Rwyf wedi bod yn gyflwynydd ac yn wirfoddolwr yn yr wyl ddwywaith yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd natur hyblyg y rhaglen, y gellid ei newid yn ystod

Mae Roger Hall yn atgyweirio cychod traddodiadol yn ei iard gychod ym Mhenarth. Bydd yn rhannu ei sgiliau a sylwadau ar fywyd morwrol Cymru yn yr ŵyl.

Roger Hall repairs traditional boats in his Penarth boatyard. He will share his skills and observations on Welsh maritime life at the Festival. (Teri Brewer)

yr ŵyl yn ôl yr angen, yn hynod o gyffrous. Cyn yr ŵyl, ceir cyfnod o ymgyfarwyddo a hyfforddiant i bawb sy'n cymryd rhan. Mae'r ŵyl fel rheol yn cychwyn i'r staff a chyflwynwyr gyda chyfarfod yn yr awyr agored yn gynnar yn y bore ar y National Mall ei hun. Bydd pob rhaglen yn cael ei hadolygu a'i mireinio'n barhaus a bydd byddin fach o wirfoddolwyr lleol a myfyrwyr o bob rhan o'r byd yn helpu i gael pethau'n barod ar gyfer yr agoriad y diwrnod wedyn. Bydd nifer syfrdanol o bwysigion ac ymwelwyr adnabyddus yn torchi eu llewys ochr yn ochr â chriw technegol yr ŵyl er mwyn cael popeth yn barod mewn pryd. Rwyf wedi gweld swyddogion llywodraeth y DU ac ysgolheigion rhyngwladol yn gyrru cerbydau golff yn llawn cyfarpar, yn hel cyflenwadau ac yn cyfarwyddo cyfranogwyr newydd.

Mae'r syniadau a ddatblygwyd drwy gyfrwng y sgysiau yng Nghymru wedi bod yn wych ac ysbrydoledig. Yn anffodus, ni ellir defnyddio'r cyfan. Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda phrif guradur y Smithsonian i nithio'r awgrymiadau ardderchog a gafwyd gan ymgyngorwyr a'r cyhoedd yn ystod y broses gynllunio er mwyn llunio rhaglen a fydd yn gynnes, yn benodol, yn fywiog ac yn hollol atyniadol.

Trefnir manylion y rhaglen fel eu bod yn cefnogi'r themâu deongliadol, er bod gan y Smithsonian ei ddulliau ei hun o ddatblygu themâu gyda'r cenedloedd gwadd, ac nid ydynt bob amser yn cydymffurfio â'r fformatau a ddefnyddir yn y gymuned ddeongliadol arbenigol.

Un o brif themâu'r rhaglen o Gymru yw'r syniad bod Cymru'n "genedl gynaliadwy". Mae hyn yn golygu bod Cymru nid yn unig yn parhau i roi arweiniad rhyngwladol o ran ymrwymadau swyddogol i gynaliadwyedd amgylcheddol mewn polisiau cenedlaethol ac mewn arfer cymunedol beunyddiol, ond hefyd bod treftadaeth ddiwylliannol helaeth Cymru yn ffynhonnell gyfoethog o ysbrydoliaeth ar gyfer y newydd a'r dyfeisgar, a bydd y meysydd rhaglen yn dangos hyn.

Os byddwch yn yr ardal yn ystod yr ŵyl, cofiwch fynd i weld beth sydd ymlaen yn rhaglen Cymru! Os na fyddwch yn yr ardal,



Caitlin Jenkins, sy'n perthyn i'r nawfed genhedlaeth o grochenwyr yng Nghrochendy Ewenni.

Caitlin Jenkins, a ninth generation potter from Ewenny pottery. (Betty Belanus)



gallwch gael gwybodaeth ar y gwahanol gyfryngau, boed yn radio, teledu, podlediadau neu bapurau newydd ac mae'n bosibl y cewch wybodaeth fyw ar-lein am rai digwyddiadau. Cynhelir Gŵyl Bywyd Gwerin y Smithsonian ar y National Mall o'r 24ain i'r 28ain o Fehefin ac o'r 1af i'r 5ed o Orffennaf 2009. www.folklife.si.edu/festival/2009

Mae Teri Brewer yn Aelod o'r Pwyllgor Curadurol ar gyfer Rhaglen Cymru yng Ngŵyl Bywyd Gwerin y Smithsonian, 2009. Mae hefyd yn Ysgrifennydd Adran Ryngwladol y Gymdeithas Ddehongli Genedlaethol ac yn Aelod Allanol o'r Ganolfan ar gyfer Astudio'r Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenedloedd Bychain ym Mhrifysgol Morgannwg. e-bost goby@mac.com

Aelodau o'r Grŵp
Curadurol mewn cyfarfod
yng Ngregynog ym mis
Mawrth 2008.

Members of the Curatorial
Group at a meeting at
Gregynog in March 2008.
(Betty Belanus)



This summer, the National Mall in Washington DC will reverberate with familiar poetry, song and ideas.

Wales will be the featured nation at the 43rd annual Smithsonian Folklife Festival, one of the largest cultural festivals in the world. **Teri**

Brewer tells us more.

The challenge for those preparing this huge interpretive program is to give more than a million visitors a taste of Welsh culture that introduces a sense of place, shares some treasured traditions, gives a strong sense of contemporary Wales and looks towards the future. At the same time, away from the festival site, a number of showcase events will promote Welsh institutions and businesses, arranged under the auspices of the Welsh Assembly Government (WAG).

The Smithsonian Folklife Festival is known for its commitment to stimulating "cultural conversations", and the Welsh program will share the 25 acre festival site in front of the US capitol with two other programs, so the conversations should be wide ranging. These will be a program on African American oral traditions and one on Latino music in the Americas. All these programs are developed under the aegis of the Center for Folklife and Cultural Heritage which begins initial planning of programs long in advance of a festival, and works collaboratively with officials, scholars and institutions from invited regions and nations to achieve dynamic programs supporting a range of objectives. When



Bydd Eifion Williams,
perchennog Melin Tregwynt
ger Abergwaun yn cymryd
rhan yng Ngŵyl 2009.

Eifion Williams, the owner
of Melin Tregwynt will be a
participant at the Festival where
he will weave his interpretive
narratives. (Betty Belanus)



Wales goes to Washington

the 10 day free cultural festival takes place this summer over 100 people from many walks of life around Wales will gather in Washington to participate and present the program.

So, how is interpretive planning for an intensive short term program like this done? The very experienced lead Smithsonian Curator, Dr. Betty Belanus has been working closely with WAG's designated team and a range of scholars and experts from Wales over several years. A Welsh based curatorial group and more general advisory committee, both drawn from a variety of Welsh organizations including the National Museum, have helped move the planning process steadily forward. Existing program resources in Wales, and previous cultural festival presentations were reviewed. In some cases new research and interviewing by trained researchers was commissioned. Interpretation at such a festival can't be highly scripted, it arises from the interaction between presenters, participants and the festival audience, on an open site where no admission is charged, where visitors freely wander, stopping to get a flavor of things that catch their attention and where the impromptu is highly valued.

Possible guiding interpretive themes were explored early on, and final choices are made only after many lively discussions, a symposium and meetings. WAG has taken the lead in all aspects of the planning process and encouraged Welsh artists and designers to work together with the Smithsonian specialists to design the program site and interpretive signage. This spring materials will be shipped from Wales, ready to create the special temporary site for the program, and briefing meetings for participants will help to refine final plans.

At a time when the professional interpretive community pays considerable attention to high tech interpretive tools and techniques, the Smithsonian Festival is rather unique. The Center has a long term commitment to personal and community interpretation. Ordinary people and local specialists represent a guest nation by personally demonstrating

skills, discussing experience, contributing to both formal and informal performances and above all sharing ideas with the festival audience in lively and constant conversation. Emphasis is on personal interactions and on audience participation and this is one cultural festival where the audience is rarely passive! Dancing, singing, hands on demonstrations and workshops, impromptu events, regional food and intensive conversation are key signatures of any Smithsonian Festival program.

Constraints of the short run, the outdoor site, the often humid and summer storm-laced festival period means that few elaborate stands and displays are used, so the invited participants from Wales will work with the assistance of a carefully chosen group of "presenters" to put people first. These presenters may be Smithsonian staff, visiting cultural specialists from Wales or experienced volunteer specialists from the United States. The presenters will mentor the Welsh "participants" into the conversational and experiential style of the festival. The presenters are also used around the site to provoke and mediate discussions, to introduce people and topics, help out with the behind the scenes logistics and provide both planned and impromptu interpretation as necessary.

I have been a presenter and volunteer at the festival twice in recent years, and the fluid nature of the program, and its ability to be adjusted over the course of the festival as necessary was fascinating. The festival is preceded by a period of orientation and training for everyone involved. The festival days usually begin for staff and presenters with an early morning outdoor meeting on the National Mall itself. Review and refinement of each program area is constant and a small army of local volunteers and student interns from around the world help get things ready for opening each day. A surprising number of VIPs and visiting dignitaries will be rolling up their sleeves together with the festival technical crew to get things ready in time. I have seen US government officials and well

known international scholars driving golf carts full of equipment, wrangling supplies and orienting new participants.

The ideas developed through the conversations in Wales have been fabulous and inspiring. Sadly, not all can be used. WAG representatives have worked with the chief Smithsonian curator to sift through many excellent suggestions offered by advisors and the public during the planning stages to put together a program that should be warm, focused, lively and thoroughly engaging.

Program details are arranged to support interpretive themes, though the Smithsonian has its own methods of developing themes with guest nations, and they do not always conform to the formats used in the specialist interpretive community.

One of the key themes in the Welsh program is the idea of Wales as a "sustainable nation". That is not only to say that Wales continues to take an international lead in official commitments to environmental sustainability in national policies and in day to day community practice, but that the wealth of cultural heritage in Wales is a rich source of inspiration for the new and innovative and program areas will demonstrate this.

If you are in the area during the festival, do go to see what's on in the Welsh program area! If you aren't, stay tuned for media coverage through radio and television broadcasts, podcasts, newspaper coverage and perhaps live online coverage of some events. The Smithsonian Folklife Festival will be held on the National Mall June 24-June 28 and July 1-5, 2009. www.folklife.si.edu/festival/2009

Teri Brewer is Curatorial Committee Member for the Welsh Program Smithsonian Folklife Festival 2009. She is also Secretary of the International Section, National Association for Interpretation, and External Member, Centre for the Study of Media and Culture in Small Nations at the University of Glamorgan.
e. goby@mac.com

Gwneud i'r Gorffennol weithio ar gyfer y Dyfodol

Dehongli ar Waith yng Nghynhadledd y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth 2009, De Cymru

9-11 Medi, gyda Dehongli Cymru

Eleni, bydd y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth yn cydweithio â Dehongli Cymru i ystyried sut y gall dehongli chwarae rhan weithgar mewn ymdrechion i adfywio lleoedd a chymunedau. Gan weithio o Gaerdydd, byddwn yn ymchwilio i sut y mae'r diwydiant treftadaeth yn disodli diwydiannau trwm yng nghymoedd Cymru a'r rhan y mae cymunedau lleol yn ei chwarae yn y broses adfywio.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn allweddol ar gyfer adfywio llwyddiannus

Gall annog cymunedau i ymddiddori yn eu treftadaeth leol fod yn gyfrwng gwerthfawr i ddod â phobl at ei gilydd drwy hybu cyd-ddealltwriaeth. Pa ran y gall dehongli ei chwarae yn y broses hon? Sut y mae'n cael ei ddefnyddio i helpu cymunedau lleol i werthfawrogi eu treftadaeth? A all dehongli fod yn arf effeithiol i hybu gweithredu cymunedol, i adfer hunanbarch lleol ac i ddenu buddsoddiad?

Safbwyntiau lleol a rhyngwladol ar ddehongli

Byddwn yn ymweld ag amrywiaeth o safleoedd treftadaeth diwylliannol a naturiol, gan gynnwys Blaenafon a Phont-y-pŵl, ac yn clywed gan siaradwyr lleol a rhyngwladol a fydd yn rhannu eu profiadau o ddefnyddio dehongli i ysbrydoli cymunedau a hybu newid, yn ogystal â chwrrdd â phobl leol sy'n chwarae rhan weithgar mewn dehongli eu treftadaeth i breswylwyr ac ymwelwyr.

Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ynghylch bwcio (a newyddion am ddiwyddiadau eraill y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth) yn: www.ahi.org.uk. Os oes cysylltiad rhwng eich gwaith chi â thema'r gynhadledd, beth am ystyried rhoi papur?



Mae'r Fenni hanesyddol yn ailddiffinio ei hunaniaeth ddiwylliannol gyda gŵyl fwyd flynyddol, sydd mor boblogaidd erbyn hyn fel bod ganddi ei gweithgareddau ymylol ei hun, lle mae busnesau a grwpiau cymunedol yn cynnal digwyddiadau arbennig sy'n ymdrin â bwyd. (h) Hawffraint y Goron (2009) Visit Wales

Historic Abergavenny is redefining its cultural identity with an annual food festival, now so popular it now has its own fringe, where businesses and community groups put on special foodie events. (c) Crown copyright (2009) Visit Wales



Dod â phobl yn ôl i'r dirwedd ôl-ddiwydiannol yn odynau calch Glanfa Goetre ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. (h) Hawffraint y Goron (2009) Visit Wales

Bringing people back into the post-industrial landscape at lime kilns at Goytre Wharf, on the Monmouthshire & Brecon Canal. (c) Crown copyright (2009) Visit Wales



Making the Past Work for the Future

Interpretation in Action at the AHI Conference 2009, South Wales,

9-11 September, with Dehongli Cymru

This year AHI will be teaming up with Dehongli Cymru to look at how interpretation can play an active part in helping regenerate places and communities. Based in Cardiff, we will be exploring how the heritage industry is replacing heavy industry in the Welsh valleys and how local communities are involved in the regeneration process.

The historic environment is a key part of successful regeneration

Involving communities at a grass roots level in their local heritage can be a vital medium in bringing people together through a shared understanding. What part can interpretation play in this process? How is it being used to help local communities engage with their heritage? Can interpretation really be an effective tool to stimulate community action, restore local pride and attract investment?

Local and international perspectives on interpretation

We'll be visiting a variety of cultural and natural heritage sites, including Blaenavon and Pontypool and hearing from local and international speakers who will share their experiences of using interpretation to inspire communities and generate change, as well as meeting local people who are actively involved in interpreting their heritage for residents and visitors.

Mark the date in your diary and find booking information (and news on other AHI events) at: www.ahi.org.uk. If your work is related to the conference theme, why not think about presenting a paper?

Mae'r diwydiant ymwelwyr wedi disodli diwydiannau trwm i raddau helaeth yng nghymoedd De Cymru, megis yma yn Big Pit. (h) Hawffraint y Goron (2009) Visit Wales

Heavy industry has largely been replaced by the tourism industry in the South Wales valleys, such as here at Big Pit. (c) Crown copyright (2009) Visit Wales